# Gwahoddiad i dendro:

# Ymarferydd Effaith, Cymdeithas Ddysgedig Cymru

**Math o gontract: Llawrydd**

**Ffi: £23,500 y flwyddyn.**

**Ymrwymiad amser: 0.5CALl (17.5 awr yr wythnos)**

**Hyd y Contract: Blwyddyn i ddechrau; wedi'i ymestyn i ddwy flynedd ar ôl adolygiad**

Rydym yn chwilio am ymarferydd effaith profiadol - llawrydd neu ar secondiad, sy'n arbenigo mewn dulliau arloesol, ymgysylltu cymunedol ac effaith gynhwysol er mwyn trawsnewid y modd y mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn nodi, yn asesu ac yn creu effaith.

Bydd yr ymarferydd yn mesur effaith ac effeithiolrwydd gwaith y Gymdeithas ar draws pob maes busnes, a hefyd yn cynorthwyo'r Gymdeithas i wneud gwelliannau er mwyn rhoi hwb i'w heffaith yn y dyfodol.

Cenhadaeth y Gymdeithas yw "hyrwyddo addysg, dysg, astudiaeth academaidd a gwybodaeth, gan gyfrannu at ddatblygiad gwyddonol, diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yng Nghymru a thu hwnt". Cyflwynir y cyfle hwn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Williamson, a chenhadaeth yr ymddiriedolaeth honno yw "Pobl Iach, Planed Iach: hyrwyddo iechyd unigolion, drwy gefnogi amgylcheddau iach, cymunedau iach a bwydydd iach". Bydd yr ymarferydd felly'n canolbwyntio ar effeithiau sy'n cyfrannu at y ddwy genhadaeth sy'n gydnaws â'i gilydd. Bydd y gwaith hefyd yn canolbwyntio ar yr effeithiau er budd cymunedau ar lawr gwlad, ac ar gydweithio mewn modd teg â'r cymunedau hynny.

**Y Cefndir**

Ni yw Academi Genedlaethol Cymru ar gyfer y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Mae'r Gymdeithas yn elusen sydd wedi'i ffurfio o Gymrodyr, wedi'u dewis drwy broses graffu drwyadl i fod yn arweinwyr yn eu maes, gyda'r diben cyffredin o roi'n ôl i Gymru.

Mae Academïau Cenedlaethol yn gyfrwng i arbenigwyr gefnogi gwaith llunio polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar faterion allweddol fel newid hinsawdd, iechyd, a'r economi. Rydym yn cynrychioli Cymru yn y gymuned wyddoniaeth ac ymchwil ryngwladol, gan sefydlu Cymru fel economi wybodaeth sy'n rhoi gwerth ar benderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym hefyd yn cefnogi cymunedau gwyddoniaeth, celfyddydau a dyniaethau Cymru drwy eiriolaeth, grantiau, medalau a chysylltiadau.

Mae Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn flaenoriaeth bwysig inni. Ein nod yw cael cymrodoriaeth sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru, a bod yn deg a chynhwysol mewn modd ystyrlon ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Cewch hyd i ragor o wybodaeth am Gymdeithas Ddysgedig Cymru drwy ymweld â'n gwefan: Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Cyflwynir y cyfle hwn mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Williamson. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cyswllt annatod rhwng iechyd pobl ac amgylcheddau a chymunedau iach, a mynediad at fwyd iach. Felly, mae'r Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu dull Un Iechyd i'w strategaeth ariannu, gan integreiddio iechyd, yr amgylchedd a bwyd o dan y weledigaeth 'Planed Iach, Pobl Iach'. Drwy ffurfio partneriaethau moesegol ag unigolion, sefydliadau a chymunedau, mae'n anelu i greu newid gwirioneddol, gan helpu i liniaru dirywiad parhaus natur, yr amgylchedd a'n system bwyd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithio'n uniongyrchol â phartneriaid i ddychmygu a chyd-greu prosiectau.

Cewch ragor o wybodaeth am yr Ymddiriedolaeth drwy fynd i'w gwefan: Ymddiriedolaeth Williamson.

**Cyfrifoldebau rôl**

Mewn cydweithrediad â staff y Gymdeithas, bydd deilydd y rôl yn dylunio ac yn datblygu dulliau arloesol a theg o fonitro a gwerthuso effaith y Gymdeithas, yn enwedig o ran Planed Iach, Pobl Iach. Bydd y dulliau hyn yn braenaru'r tir ar gyfer ffyrdd radical o weithio gyda phartneriaid a chymunedau amrywiol er mwyn sicrhau cynhwysiant a thegwch.

I feincnodi a chefnogi adroddiadau'r Gymdeithas i gyllidwyr, bydd disgwyl i ddeilydd y rôl gwblhau asesiad o effaith y Gymdeithas o ran Planed Iach, Pobl Iach. Yn seiliedig ar yr asesiad hwn, bydd strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i hyrwyddo'r effeithiau a nodir ymhlith rhanddeiliaid, gan gynnwys llunwyr polisi, busnesau, y sector dielw a'r cyhoedd ar raddfa ehangach.

Disgwylir hefyd i ddeilydd y rôl gyflwyno cynigion cynaliadwy ar gyfer gwella'r dull o asesu a chreu effaith hirdymor ac ystyrlon ar draws rhaglenni'r Gymdeithas, gyda dulliau wedi'u teilwra sy'n addas ar gyfer gwahanol weithgareddau, gan gynnwys:

- grantiau
- digwyddiadau
- cyllid a chodi arian
- etholiadau'r gymrodoriaeth
- gwobrau
- hyfforddiant datblygu ymchwilwyr
- ymgysylltu â pholisi

Os cytunir ar gynllun ar gyfer newid yn seiliedig ar y cynigion, bydd deilydd y rôl yn cyflwyno ac yn gweithredu prosesau newydd ar draws y Gymdeithas, ar y cyd â staff i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phopeth arall a wnawn fel sefydliad, ac yn sicrhau cymeradwyaeth briodol drwy bwyllgorau llywodraethu. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:

- ailddychmygu'r trefniadau ar gyfer adrodd ac i bwy yr adroddir, er mwyn casglu gwybodaeth ehangach am effaith
- dylunio ffurflenni cais/enwebu newydd i gasglu gwybodaeth fwy cynhwysol a pherthnasol
- dylunio a gweithredu dulliau casglu data newydd
- creu dogfennau canllaw a gweithdrefnau gweithredu safonol newydd
- ysgrifennu polisïau newydd

- newid dulliau cyfathrebu
- cyflwyno newidiadau i'r system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid.

Gan ymgysylltu â'r Gymdeithas ac Ymddiriedolaeth Williamson, bydd deilydd y rôl hefyd yn rhoi cyngor i wneud y mwyaf o effaith gwaith parhaus, ac yn cynnig awgrymiadau'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwaith i'w gyflawni ar y cyd yn y dyfodol rhwng y naill a'r llall.

Nid yw cyngor ar sut i ddefnyddio'r gwaith hwn yn gysylltiedig ag effaith i ddenu cyllid ychwanegol i'n helusen yn ofynnol ar gyfer y rôl, ond byddai hynny'n cael ei groesawu ac felly'n cael ei ystyried yn faen prawf dymunol wrth lunio ein rhestr fer.

Nid oes gan y Gymdeithas brosesau wedi'u sefydlu i fesur effaith ar hyn o bryd, felly bydd gan ddeilydd y swydd ryddid i gynnig newid addas, cynhwysol ac arloesol. Yn seiliedig ar yr amser sydd ar gael ar gyfer y gwaith, gall deilydd y rôl gynnig blaenoriaethu rhai agweddau penodol ar waith Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Gall deilydd y rôl ddewis defnyddio dull ailadroddol ar gyfer y gwaith hwn.

**Manyleb yr Unigolyn**

Disgwylir i ymgeiswyr am y rôl hon ddangos cefndir cryf mewn dulliau effaith sy'n arloesol ac yn radical o ran eu tegwch, o unrhyw sector.

Disgwylir hefyd i ymgeiswyr ddangos profiad o fesur a gwneud y mwyaf o effeithiau ystyrlon a theg ar gymunedau, yn enwedig lle bo'r effeithiau hynny'n hirdymor ac yn anuniongyrchol (er enghraifft, ein bod yn cyllido ymchwilwyr sy'n ymgysylltu â chymunedau yn hytrach nag ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau). Mae ymrwymiad cryf i foeseg a thegwch – y tu hwnt i ddisgwyliadau sylfaenol a gofynion cyfreithiol – a'r gallu i ddangos hynny, yn hanfodol.

Bydd yn fuddiol i'r ymgeisydd feddu ar ddealltwriaeth gref o'r ecosystem ymchwil, neu barodrwydd i ddatblygu'r ddealltwriaeth honno'n gyflym yn y swydd.

Bydd hefyd yn fuddiol i'r ymgeisydd feddu ar ddealltwriaeth gref o weithio o fewn cyd-destun Cymreig, gan gynnwys ein hymgysylltiad â systemau datganoledig a'r modd yr ydym yn gweithredu'n ddwyieithog, neu barodrwydd i ddatblygu'r ddealltwriaeth honno'n gyflym yn y swydd.

**Patrwm gwaith**

Disgwylir i ddeilydd y rôl dreulio 0.5CALl ar y rôl hon. Er gwybodaeth, mae swydd amser llawn yng Nghymdeithas Ddysgedig Cymru yn cynnwys 35 awr yr wythnos, gyda 25 diwrnod o wyliau blynyddol, ynghyd â 7 diwrnod dewisol lle bydd y swyddfa ar gau yn ystod y Pasg a'r Nadolig, a gwyliau banc.

Contract cyfnod penodol o flwyddyn yw hwn, a fydd yn cael ei ymestyn i ddwy flynedd ar ôl cwblhau adolygiad perfformiad yn llwyddiannus (mae cyllid eisoes wedi'i sicrhau ar gyfer dwy flynedd).

Gellir gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith o bell, ond bydd disgwyl i ddeilydd y swydd fod yn bresennol mewn cyfarfodydd pythefnosol yn y cnawd yng Nghaerdydd. Gellir trefnu cysylltiadau ychwanegol yn y cnawd yn unol â dewisiadau deilydd y swydd, ond ni fydd y deilydd yn gallu hawlio am gostau teithio i Gaerdydd fel treuliau ychwanegol.

**Cyllideb**

Bydd gan ddeilydd y rôl fynediad at gyllideb ddynodedig o £1,000 y flwyddyn i gefnogi ei waith yn uniongyrchol. Gellir gwneud cais am gyllid ychwanegol os oes achos cryf o blaid hynny.

Disgwylir i ddeilydd y swydd ddefnyddio ei offer TG ei hun.

**Sut i ymgeisio**

Anfonwch CV a llythyr cyflwyno (uchafswm o 2 dudalen) i lsw@wales.ac.uk erbyn **Dydd Llun 25ain o Awst.** Rydym yn disgwyl cynnal cyfweliadau ar-lein ddydd Gwener 5ed Rhagfyr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y cyfle hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Recriwtio, Fiona Dakin (Pennaeth Polisi Cyhoeddus) fdakin@lsw.wales.ac.uk.